JAMES, JOHN (Ioan ap Iago'), emynydd a bardd o ail hanner y 18fed ganrif a dechrau y 19eg

Enw: John James
Ffugenw: Ioan ap Iago
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: emynydd a bardd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Daniel Evans

nid oes sicrwydd am flwyddyn ei eni na'i farw. Trigai yn ardal Cilycwm, Llanymddyfri. Saer coed ydoedd. Ni chafodd addysg, ond trwy ei ymdrechion personol daeth yn ysgolhaig da. Cymerai ddiddordeb mewn hanes, gwleidyddiaeth, a barddoniaeth. Daeth at grefydd yn ieuanc, bu'n aelod yn Soar (Methodistiaid Calfinaidd), Cilycwm, am 46 mlynedd, ac yn flaenor yno am 25 mlynedd. ' Jacki Siams ' y gelwid ef yn yr ardal. Daeth yn fardd pur enwog yn ei ddydd a chyfansoddodd amryw o emynau. Wedi ei farw cyhoeddwyd llyfryn o'i waith gan J. Jones, Llanymddyfri, yn 1828, *Ehediadau Barddonol*.

Awdur

Y Parchedig Daniel Evans, (1962)

Ffynonellau

Ehediadau Barddonol ar amryw destunau yn cynnwys sylwadau ar Gwymp a Chodiad Dyn, Teyrnas y Cyfryngwr, myfyrdodau ar ryfeloedd, ac amserau caledion a therfysgol; ynghyd ag amryw destunau duwiol a dyddanol ereill, 1828

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733469

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Evans, D., (1953). JAMES, JOHN (Ioan ap Iago'), emynydd a bardd o ail hanner y 18fed ganrif a dechrau y 19eg. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JAME-JOH-1750

Copïo i'r clipfwrdd

LLGC
NLW
LLYFRGEL
THE NATI
Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government